“Felly, yr hyn a gysylltodd Duw, ni ddylai neb ei wahanu.”
(Mathew 19:6)

Dyma eiriau cyfarwydd i unrhyw un sydd wedi bod mewn priodas Gristnogol mewn capel neu lan. Mae geiriau'r Gwaredwr yn rhan o'i ateb i gwestiwn a fwriadwyd i'w faglu gan y Phariseaid. Ond o'r ateb cawn ddysgeidiaeth yr Arglwydd ar briodas ac ysgariad.

Y cefndir

Roedd y Phariseaid, sect grefyddol Iddewig, yn ceisio baglu Iesu ar fater ysgariad. Roedd gwahaniaeth barn ymhlith yr Iddewon ac yn arbennig ymhlith y rabiniaid oedd wedi dehongli Cyfraith Moses.

Yr adnod allweddol i'w dehongli oedd Deuteronomium 24:1: **“Os bydd dyn wedi cymryd gwraig a'i phriodi, a hithau wedyn heb fod yn ei fodloni am iddo gael rhywbeth anweddus ynddi, yna y mae i ysgrifennu llythyr ysgar iddi, a'i roi yn ei llaw a'i hanfon o'i dŷ.**”

Y term allweddol oedd ‘rhywbeth anweddus’. Roedd un dosbarth yn dehongli'r term yn fwy llac, gan ddweud y gallai'r peth anweddus fod yn **“unrhyw reswm”** ynglŷn â'r wraig nad oedd yn bodloni ei phriod. Efallai y byddai wedi llosgi'r bwyd neu bod ei llais yn rhy uchel wrth iddi siarad gartref. Mae'n ymddangos mai dyma'r dehongliad yr oedd y Phariseaid yn holi amdano.

Roedd y dosbarth arall o rabiniaid yn dehongli'r term yma mewn ffordd fwy gofalus a mwy cywir. Mae'r gair Hebraeg yn Deuteronomium yn golygu ‘noethni’ neu ‘gwarth’. Felly, mae'n rhaid bod y wraig wedi ymddwyn yn gywilyddus ac efallai yn anfoesol neu'n bryfoclyd cyn i'w phriod benderfynu ysgaru â hi.

Cyd-destun

Mae cyd-destun Cyfraith Moses yn dangos mai bwriad y ddeddf yma oedd amddiffyn gwragedd rhag cael eu hysgaru rywsut rywsut, a'u gadael ar y clwt, fel petai, heb unrhyw hawliau. Roedd gorfodaeth ar y gŵr i roi tystysgrif ysgariad iddi, a byddai hwnnw'n rhoi hawl iddi ailbriodi. Ond mae'r ddeddf yn mynd ymlaen i ddweud nad oedd hawl gan y gŵr cyntaf i'w phriodi eto pe bai'r wraig yn cael ysgariad arall neu'n colli ei hail ŵr trwy farwolaeth.

Y bwriad, felly, oedd rhwystro dynion rhag trin ysgariad yn ysgafn a difeddwl, a thrin eu gwragedd fel unrhyw ddarn arall o'u heiddo.

Iesu

Mae ateb Iesu yn mynd â ni nôl at y Creu, ac at fwriad gwreiddiol Duw, yn

hytrach nag aros gyda dadleuon ysgariad. Tra bod diddordeb y Phariseaid yng ngoddefiad Moses, roedd diddordeb Crist yn ordinhad gwreiddiol Duw. Mae'r Arglwydd yn dweud wrthynt fod Moses wedi caniatáu ysgariad (oedd yn bodoli mewn rhyw ffurf cyn Moses) oherwydd bod y bobl mor galongaled. Roedd gwŷr yn trin eu gwragedd yn wael, a bu Cyfraith Moses yn gyfrwng i ddod â rhyw safon, a rhyw ymwybyddiaeth o gyfrifoldeb ar ddynion priod.

Creu i briodi, nid ysgaru

Mae Iesu yn dweud wrthym bod Duw wedi creu dyn a dynes i'w gilydd, yn gorfforol ac yn emosiynol hefyd. Mae'n ceryddu'r Phariseaid trwy ddweud ei fod yn disgwyl iddyn nhw wybod trefn ac ordinhad Duw o'r Ysgrythur. Onid oedden nhw wedi darllen llyfr cyntaf Moses? **"Dyna pam y bydd dyn yn gadael ei dad a'i fam, ac yn glynu wrth ei wraig, a byddant yn un cnawd"** (Gen.2.24).

Cafodd dyn a dynes eu creu er mwyn ei gilydd; felly, mae dyn yn gadael ei rieni i gael perthynas barhaol gyda'i wraig. Mae'n amlwg fod Iesu'n deall geiriau Genesis fel ordinhad dwyfol ac nid disgrifiad syml o beth oedd yn digwydd beth bynnag.

Cysylltiad Duw

Duw, felly, sydd wedi cysylltu gŵr a gwraig. Os mai ordinhad a chysylltiad Duw yw'r undeb priodasol, mae'n sefyll i reswm na ddylai dyn ei dorri. Rhaid i'r sawl sy'n priodi weld priodas fel sefydliad dwyfol. Rhaid iddo sefydlu a chadw undeb rhywiol, meddyliol, moesol ac ysbrydol gyda'i gymar.

Godineb

Wrth i'r Phariseaid geisio baglu Iesu eto yn adnod 7, mae'r Arglwydd yn dweud mai dim ond godineb sy'n rhoi rheswm digonol dros gael ysgariad a phriodi eto. Mae anffyddlondeb rhywiol yn ymosodiad ar hanfod priodas. Er mai sôn am odineb merch mae Iesu yn yr adnod yma, mae Marc yn dangos bod Iesu'n gweld godineb dyn yn yr un goleuni'n union (Marc. 10:11-12).

Problemau cyfoes

Mae sefyllfa'n dyddiau ni yn bell o ddysgeidiaeth Gair Duw. Gwelsom erydu cynyddol ar briodas yn y deugain mlynedd diwethaf. Does dim byd yn bod ar ordinhad priodas, ond mae problemau yn codi oherwydd mai pobl ffaeledig sydd yn priodi. Serch hynny, prin y gallai neb ddadlau bod strwythur cymdeithas heddiw yn gadarnach ac yn fwy sefydlog wrth weld sefydliad priodas yn dirywio.

Diolch am ddysgeidiaeth Iesu ac ordinhad Duw sydd er lles i ni ac i'n cymdeithas.